# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 22 Mawrth 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | C.James, L.Williams, W.Carpenter, A.Dacey, R.Davies, R.W.Wood a/ac J.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, C.Morris, N.Pearce, C.Plowman, M.Roberts, A.Thomas, J.Stevens, T.Rees, S.Brennan, T.McConvey a/ac Ms.J.Smith |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths a/ac S.Jones |
| **Arsylwyr:** | Councillor Stephanie Grimshaw<br>Cynghorydd Mrs Suzanne Paddison |

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar yr eitemau canlynol o'r agendâu Craffu a Bwrdd y:

3. Diweddariad Llafar – Mesur 11 Cynllun Gweithredu'r  Strategaeth Gwastraff yn unol â rheol 10.1 rheolau'r weithdrefn graffu.
7. Siarter Teithio Iach
8. Mesurau perfformiad 2023/2024 - Chwarter 3
13. Rhaglen Gwaith Priffyrdd 2024/25
14. Ynni goleuadau stryd - Ymateb i'r ymgynghoriad
17. Cais ar gyfer camera adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig (ANPR) (Yn eithriedig dan Baragraff 18)
18. Cynnig arfaethedig i godi cyfamodau cyfyngu a gwerthu ardal fach o dir yn hen westy The Four Winds, Princess Margaret Way, Port Talbot (Yn eithriedig dan Baragraff 14)

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Datganodd y Cynghorydd Stephanie Grimshaw gysylltiad ag Eitem 14 gan ei bod yn gweithio i Gymorth i Fenywod Cymru.

3. **DIWEDDARIAD LLAFAR – MESUR 11 CYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH GWASTRAFF YN UNOL Â RHEOL 10.1 RHEOLAU'R WEITHDREFN GRAFFU.**

Ymddiheurodd swyddogion nad oeddent yn gallu darparu adroddiad llawn mewn pryd ar gyfer y cyfarfod yn unol â chais y Cadeirydd oherwydd cyfyngiadau amser, ond fe wnaethon nhw gadarnhau y bydd adroddiad llawn ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf sy'n ymwneud â'r strategaeth wastraff.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cynllun Gweithredu Strategaeth Wastraff fel y'i cymeradwywyd ym mis Ebrill 2023, yn cynnwys Mesur 11 - i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar symud i gasglu gwastraff na ellir ei ailgylchu bob tair wythnos gyda'r terfyn presennol o dri bag (bin 140 litr ar olwyn), ochr yn ochr â pharhau â chasgliadau wythnosol o wastraff y gellir ei ailgylchu gan gynnwys, bwyd, papur a cherdyn yn ogystal â phlastig, metelau a batris cartref a gwydr. Bydd yr ymgynghoriad yn archwilio'r ffordd ymlaen o ran gwastraff gwyrdd ac amlder casgliadau cewynnau.

Dywedodd swyddogion fod ymgynghoriad ar gasgliadau pob tair wythnos wedi'i drefnu i ddechrau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 6 Mai a chaiff ei gynnal am chwe wythnos ac mae nodyn briffio'n cael ei baratoi i'w anfon at yr holl aelodau yn unol â'r adroddiad gwreiddiol. Byddai unrhyw gynigion pellach i'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau i benderfynu arnynt.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y diweddariad ac roeddent yn deall yr anawsterau wrth ddarparu'r adroddiad ar fyr rybudd a chroesawodd y cyfle i edrych ar fanylion yr holl fesurau a gynhwyswyd yn y strategaeth wastraff yn ystod y cyfarfod nesaf.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch sut y byddai'n effeithio ar Aberafan a Rhos Baglan gan fod yr ardal yn cael trafferth gyda thipio anghyfreithlon a gwastraff biniau ychwanegol ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain yn gyntaf.

Dywedodd yr Aelodau fod ymgysylltiad â'r cyhoedd yn aml yn isel o ran ymgynghoriadau ac mae pobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd

na fyddant yn gallu ymateb. Mynegodd yr aelodau bryder hefyd y bydd yr awdurdod yn parhau i fynd yn ei flaen hyd yn oed os oes adborth gwael.

Gofynnodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet dros Strydlun a oedd am wneud sylw ynghylch sefyllfa bresennol polisi'r Cabinet gan fod y Cadeirydd yn teimlo bod rhywfaint o ddryswch wedi bod o ganlyniad i ddatganiadau gwahanol gan aelodau'r Cabinet ar y polisi hwn.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Strydlun fod yr argymhelliad yn argymhelliad swyddog ar hyn o bryd ac nid yw'n argymhelliad gan y Cabinet. Bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad ynghylch hyn pan fydd yn cyrraedd y Cabinet. Dywedodd Aelod y Cabinet fod y Cabinet yn awyddus iawn i sicrhau bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn eang ar draws y sir.

Nododd y Cadeirydd nad oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch a ddylid rhoi casgliadau gwastraff pob tair wythnos ar waith, ond mae bwrdd y Cabinet wedi penderfynu ystyried a symud ymlaen tuag at hynny, fel rhan o'r strategaeth wastraff. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn dymuno ei gwneud yn glir nad cynnig swyddog yn unig ydyw, mae wedi cael sêl bendith bwrdd y Cabinet.

Eglurodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod Aelod y Cabinet yn gywir bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r angen i ymgynghori a bod yr argymhelliad wedi cael ei gymeradwyo fel rhan o gyfres ehangach o argymhellion o fewn y strategaeth wastraff a'r cynllun gweithredu. Dywedodd y Cyfarwyddwr y dylid cynnal ymgynghoriad yn unig, ac mae'n bwysig i'r awdurdod fesur barn y cyhoedd ar sail gwybodaeth mewn perthynas â sut y mae swyddogion yn mynd i ddarparu'r gwasanaeth gwastraff wrth symud ymlaen yn hytrach na dweud eu bod yn mynd i gasglu gwastraff bob tair wythnos, gan nad yw hynny'n wir.

Nododd swyddogion yr angen i roi cynnig gerbron y cyhoedd i nodi os oes angen i'r awdurdod gynyddu'r targed ailgylchu o 70% ac nad yw'r mesurau eraill yn galluogi hynny, yna mae angen edrych ar ddulliau ychwanegol o wneud hynny. Fel Cyngor, mae angen iddynt gynnal ymgynghoriadau i gael adborth gan y cyhoedd a all lywio unrhyw gynigion a gyflwynir fel Cyngor yn y dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi bod yn ddefnyddiol iawn cael eglurhad heddiw gan swyddogion ac Aelod y Cabinet o ran beth yw'r sefyllfa bresennol.

Gofynnodd yr Aelodau petai ymgynghoriad ar gyfer y casgliadau pob tair wythnos yn mynd yn ei flaen a fyddai'n strategaeth wahanol ar gyfer sachau porffor a sachau du oherwydd os na fydd cewynnau a chynhyrchion mislif etc yn cael eu casglu am 3 wythnos fydd hyn yn erchyll i breswylwyr.
Gofynnodd yr Aelodau am eglurder mai ymarfer targed ailgylchu yw hwn ac nad yw'n ymwneud â'r gyllideb gan fod negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol wedi drysu pobl bod y casgliadau pob tair wythnos yn rhan o gynnig cyllidebol eleni.

Ailadroddodd swyddogion y bydd nodyn briffio yn cael ei anfon at bob aelod a bydd y ffurfweddiad a fydd yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad yn seiliedig ar newid i gasgliadau pob tair wythnos ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu gydag uchafswm o dair sach ddu mewn bin 140 litr ar olwyn fel sydd ar waith ar hyn o bryd, ochr yn ochr â pharhau â chasgliadau wythnosol ar gyfer gwastraff y gellir ei ailgylchu. Bydd hynny i gyd yn cael ei nodi yn y nodyn briffio a fydd yn cyrraedd yr holl aelodau cyn i'r ymgynghoriad ddechrau.

Nodwyd yr adroddiad.

4. **<u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>**

<u>7. Siarter Teithio Iach</u>

Cyflwynodd swyddogion yr adroddiad gan atgoffa'r aelodau bod y gweithgarwch y mae'r awdurdod wedi'i ystyried wrth ymrwymo i'r Siarter Teithio Iach ar y sail nad oedd cyllideb ar gael i'w chyflawni.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y gwaith sydd wedi'i wneud wedi cael ei drosglwyddo i'r Tîm Diogelwch Ffyrdd ac mae hyn yn ychwanegol at y gweithgareddau eraill yn y maes hwn.

Dywedodd swyddogion fod y Siarter Teithio Iach yn cefnogi gweithgareddau eraill yr awdurdodau ynghylch y pwnc hwn ac yn ategu atynt. Mae'r Siarter Teithio Iach yn cefnogi cynlluniau datgarboneiddio'r awdurdod, newid dulliau teithio ehangach, newid ymddygiadol ac mae'n cyfrannu at yr agenda iechyd a lles a nodir yn y cynllun corfforaethol.

Mynegodd yr aelodau bryderon bod yr asesiad gan gymheiriaid wedi bod yn hael gyda rhai o'r sgorau.

Cydnabu'r Aelodau, er bod cynnydd wedi'i wneud a bod yr awdurdod yn gwneud rhai o'r pethau sy'n ofynnol gan y siarter, nad oeddent yn credu bod yr awdurdod yn 'arwain y ffordd' ar rai o'r materion.

Cytunodd swyddogion nad oedd yr awdurdod yn 'arwain y ffordd' ond ei fod yn cymryd camau mawr wrth fwrw ymlaen â'r agenda ond mae ganddynt ragor o waith i'w wneud.

Esboniodd swyddogion fod y ddarpariaeth o rai elfennau y maent yn ceisio'u gwella yn dibynnu ar sicrhau grantiau, cyllid a chefnogaeth gan asiantaethau eraill.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y bydd yr awdurdod yn cyrraedd pwynt o fewn y meini prawf asesu lle bydd rhaid i'r awdurdod benderfynu bod angen iddo fuddsoddi, yn enwedig os yw am arwain y ffordd. Cytunodd swyddogion fod asesu cyfoedion wedi bod ychydig yn hael ond dywedodd ei fod yn faen prawf llym, a'i fod yn sgorio o fewn y metrigau sy'n cael eu defnyddio at y diben hwnnw. Cadarnhaodd swyddogion y byddant bob amser yn ymdrechu i wella'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r cynllun gweithredu.

Nodwyd yr adroddiad.

8. Mesurau perfformiad 2023/2024 - Chwarter 3

Nododd yr Aelodau fod problemau o ran staffio sydd wedi effeithio ar ddangosydd 4: 'Penderfyniadau cynllunio mawr' ond roeddent yn poeni ei fod wedi bod yn is na'r targed ers blwyddyn. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd ynghylch amserlenni o ran y broses recriwtio i fynd i'r afael â'r broblem.

Nododd swyddogion bryderon yr aelodau a dywedwyd bod recriwtio mewn sefyllfa llawer gwell gydag ymgyrch recriwtio lwyddiannus dros y misoedd diwethaf gan gynnwys dyrchafiadau mewnol ac apwyntiadau allanol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr apwyntiadau allanol yn gweithio cyfnodau rhybudd gyda'u cyflogwyr presennol ar hyn o bryd ac y byddant yn ymuno yn ystod y pedair wythnos nesaf.
Eglurodd swyddogion fod swyddi'r uwch swyddogion cynllunio yn ymdrin â'r ceisiadau cymhleth, dadleuol a phwysig y mae'r Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) hwn yn ymwneud â nhw ac unwaith y bydd y swyddogion newydd yn dechrau, bydd cyflenwad llawn o bump uwch swyddog cynllunio i ymdrin â'r ceisiadau hynny.

Mae'r rhain wedi bod yn rolau anodd eu llenwi oherwydd y lefel o arbenigedd y mae ei angen.
Rhoddwyd gwybod i'r aelodau mai dim ond un swydd wag sydd ar hyn o bryd ar gyfer swyddog gorfodaeth sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd a bydd y cyfnod ymgeisio'n dod i ben yng nghanol mis Ebrill.

Dywedodd swyddogion eu bod yn credu nad yw geirfa'r DPA hwn yn ddefnyddiol gan mai'r ffordd hawsaf o gyrraedd y targed hwn yw gwrthod unrhyw gais sy'n nesáu tuag at ddiwedd ei amserlen 8 wythnos neu 16 wythnos (fel sy'n berthnasol). Nid yw swyddogion am wneud hynny ac, yn hytrach, byddant yn cysylltu'n gyson ag ymgeiswyr a datblygwyr i drafod sut y gellir gwella eu cynllun a sut y dylid ei wella. Dywedodd swyddogion nad yw'r DPA yn caniatáu i swyddogion adrodd lle gwnaed estyniadau amser cytunedig gyda datblygwyr ac ymgeiswyr.

Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn gobeithio addasu geiriad y DPA hwn ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf i roi adlewyrchiad cywir i'r aelodau o'r ceisiadau y mae'r tîm yn eu cyflwyno ar amser, a fyddai'n cynnwys ceisiadau lle cytunwyd ar estyniadau amser.

Nodwyd yr adroddiad.

## 13. Rhaglen Gwaith Priffyrdd 2024/25

Gofynnodd yr Aelodau a yw'r cynllun gwella lonydd gwledig ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfan ac a fydd yn cynnwys trwsio tyllau neu ailwynebu arwynebau ffyrdd mewn ardaloedd penodol yn unig?

Gofynnodd y Cynghorwyr hefyd a fyddai'n rhaid iddynt gyflwyno ceisiadau i drwsio tyllau ar lonydd gwledig oherwydd mae problemau gydag arwynebau ffyrdd gwledig mewn rhai ardaloedd.

Eglurodd swyddogion ei fod ar gyfer ffyrdd gwledig ar draws ardaloedd y cymoedd ac mae mesurau amrywiol wedi cael eu defnyddio ar y ffyrdd gwledig. Dywedodd swyddogion fod ganddynt eisoes restr hir o ardaloedd i'w hatgyweirio a'u bod eisoes wedi arolygu'r holl ffyrdd.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod arolygon technegol yn cwmpasu'r prif ffyrdd ac mae unrhyw ffyrdd nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr arolygon hynny yn destun arolygon gweledol sy'n cael eu cwblhau

mewn sgwariau 10 metr. Esboniodd swyddogion mai dyma sut maen nhw'n cynhyrchu'r mapiau maen nhw'n eu defnyddio i ddangos cyflwr y ffyrdd yn eu wardiau i aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch pam, o ystyried bod arian grant ar gael ar gyfer cynlluniau megis cyrbau isel a darparu croesfannau i gerddwyr, mae'r awdurdod wedi penderfynu ariannu rhai o'r cynlluniau hynny o'r gronfa cyllid cyfalaf yn hytrach na sicrhau cyllid grant?

Dywedodd swyddogion fod y tîm rheoli rhwydwaith yn siarad â chydweithwyr yn yr adran draffig sy'n gwneud y ceisiadau ar gyfer y cynlluniau teithio llesol am raglenni croesfannau isel posib, ac yn draddodiadol bu un neu ddwy groesfan isel yn y rhaglen bob blwyddyn. Dywedodd swyddogion fod rhai ardaloedd yn cael eu codi gan y cyhoedd yn fwy aml nag eraill.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, os bydd y swyddogion yn ennill grant, byddant yn ceisio sicrhau'r cyfle hwnnw i gael gafael ar ardal mor eang â phosibl lle gallant wneud gwelliannau ar gyfer cyrbau isel, yn enwedig o amgylch cynlluniau teithio llesol. Llywodraeth Cymru sy'n diffinio'r map rhwydwaith teithio llesol ac mae ardaloedd o fewn cymdogaethau sydd y tu allan i ffin ddiffiniedig y cynllun hwnnw.

Esboniodd swyddogion eu bod yn archwilio llwybrau diogel i'r ysgol o safbwynt diogelwch ar y ffyrdd a lle maent yn nodi diffygion yn y maes hwn, maent hefyd yn ceisio sicrhau grant i fynd i'r afael â'r ardaloedd hynny. Esboniodd swyddogion y bydd cymunedau bob amser a fyddai'n disgyn y tu allan i'r cynlluniau cymorth grant hynny lle mae'n debyg y bydd angen iddynt gael dyraniad o fewn y rhaglen gyfalaf i fynd i'r afael â nhw.
Cytunodd yr Aelodau â swyddogion a dywedwyd bod eu pryder wedi deillio o'r ffaith bod rhai o'r cynlluniau hyn mewn ardaloedd sydd o fewn yr aneddiadau diffiniedig o dan y Ddeddf Teithio Llesol ac mae rhai hefyd yn ymwneud ag ardaloedd sydd â chynlluniau teithio llesol parhaus sy'n cael eu datblygu hefyd.

Dywedodd yr Aelodau mai eu disgwyliad fyddai'r cymunedau sydd y tu allan i'r aneddiadau diffiniedig yn unig y byddai'n derbyn cronfa gyfalaf yr awdurdod ond mae cynlluniau wedi'u cynnwys mewn ardaloedd adeiledig gan gynnwys Sandfields sydd ychydig yn bryderus i'w gweld o ran dyraniad yr arian.

Gofynnodd yr aelodau a yw trafodaethau rhwng y ddau dîm yn tynhau a sut mae swyddogion yn hidlo'r cynlluniau hynny. Dywedodd swyddogion fod y timau'n trafod manylion y rhaglen, hyd yn oed os yw'n gynllun mawr lle maent yn gwneud gwaith, byddent yn bendant yn sylwi ar unrhyw welliannau angenrheidiol, ond ni fydd gan swyddogion gyllid i gwblhau'r holl fesurau cywiro hynny o reidrwydd, hyd yn oed oes yw'r ardal o fewn y map rhwydwaith.
Mae'r penderfyniad yn cael ei gefnogi gan y Cabinet.

14. Ynni goleuadau stryd - Ymateb i'r ymgynghoriad

Cyflwynodd swyddogion yr adroddiad gan gydnabod cafwyd rhai ymholiadau gan aelodau ynghylch pam fod argymhellion 3 a 4 yn yr adroddiad. Dywedodd swyddogion mai pwrpas hwn oedd cadw opsiynau'r Cyngor ar agor pe bai angen edrych ar hyn wrth symud ymlaen.

Yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd gan swyddogion ar yr adroddiad cyn y cyfarfod, eglurodd swyddogion eu bod wedi diwygio'r argymhellion, er mwyn cyfuno argymhellion tri a phedwar.

Nododd yr Aelodau ynghylch adran effaith yr adroddiad ar gyfer 'trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol' ei fod yn nodi, 'gweler effeithiau trosedd ac anhrefn.' Roedd yr Aelodau'n anhapus nad oes sôn am drais yn erbyn menywod a merched a theimlwyd na roddwyd dyletswydd lawn i ystyried yr effeithiau hyn ac nad yw'n ddigonol i restru pryderon cyffredinol am drosedd ac anhrefn.

Nododd yr Aelodau fod strategaeth benodol ar drais yn erbyn menywod a merched a thrais rhywiol (VADRA SV) am reswm ac mae hynny'n golygu bod angen ystyried hyn ac mae dyletswydd arnom i ystyried VADRA SV yn iawn a dyna pam y mae wedi'i nodi ar wahân i drosedd ac anhrefn.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd pam nad yw'r awdurdod yn gwahanu trosedd ac anhrefn a thrais yn erbyn menywod, o gofio strategaeth VADRA SV perthnasoedd iach a chymunedau cryfach y Cyngor a pham nad yw'r asesiad effaith wedi rhestru bod effaith ar ryw.

Dywedodd yr Aelodau eu bod wedi siarad â Chymorth i Fenywod Thrive, sy'n sefydliad ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched, trais rhywiol, a chamfanteisio rhywiol ac nad ydynt wedi cael unrhyw

ohebiaeth gan y Cyngor ac o ganlyniad i hyn maent yn teimlo ei bod yn beryglus newid i gynllun peilot heb farn sefydliadau arbenigol. Dywedodd swyddogion fod yr asesiad effaith yn cynnwys dau gynnig, un a oedd yn ymwneud â phylu goleuadau ac un ar gyfer goleuadau rhan amser gyda'r nos.

Dywedodd swyddogion eu bod yn teimlo nad oeddent wedi gwneud digon o asesiadau o ran goleuadau rhan amser gyda'r nos yn yr adroddiad, ac maent yn credu bod angen cynllun peilot i helpu i lywio unrhyw oblygiadau.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod treialon o bylu'r goleuadau wedi cael eu cynnal ac roedd cynghorwyr a'r cyhoedd wedi cael cyfle i weld y goleuadau'n cael eu pylu. Esboniodd swyddogion fod rhai goleuadau wedi bod yn cael eu pylu ers 2016. Pan gododd pris ynni yn sylweddol yn ddiweddar, cymerodd swyddogion 3 watt oddi ar yr holl oleuadau fel mesur brys i geisio lliniaru'r costau uwch. Nid yw swyddogion wedi cael unrhyw ohebiaeth am hyn gan y cyhoedd.

Eglurodd swyddogion fod llawer o brofiad o bylu goleuadau, ac mae'n haws mesur effaith pylu o ran pa lefel o bylu sy'n ddigonol. Mae'r adroddiad yn awgrymu mai 25% yw'r terfyn ar gyfer pylu a dyna fyddai swyddogion yn ei gynnig i gyflawni unrhyw arbedion ynni fel sy'n ofynnol oherwydd y cynnydd mewn costau ynni.
Dywedodd swyddogion nad ydynt yn bwriadu rhoi goleuadau rhan amser gyda'r nos ar waith o dan yr adroddiad hwn ac roeddent yn teimlo bod angen cynnal astudiaeth beilot ddaearyddol benodol fel y gellir casglu tystiolaeth ynghylch a yw'n cael effaith ar bob aelod o'r gymuned a graddau'r effaith honno.

Dywedodd swyddogion y byddai'n briodol i aelodau Cyngor Castell-nedd Port Talbot gael yr adborth o astudiaeth a gynhaliwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai'r hyn a gynigir o dan Argymhelliad 3 yw bod gan aelodau olwg o'r lleoliad, y cyfnod amser a'r amseroedd gyda'r nos y byddai'r cynllun peilot ar waith yn ogystal â phryd y byddai'r goleuadau'n cael eu diffodd a'u troi ymlaen unwaith eto. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai goleuadau'n cael eu diffodd yn ystod oriau mân y bore pan fydd traffig cerddwyr a cherbydau'n isel iawn.

Clywodd yr Aelodau fod y cyfeiriad at yr ymateb trosedd ac anhrefn o fewn y farn sgrinio ar y sail nad oedd swyddogion yn credu y byddai

effaith sylweddol wahanol ar fenywod o ganlyniad i bylu o ran pwy arall allai fod yn destun trais ychwanegol yn y gymuned. Fodd bynnag, pe bai'r astudiaeth beilot ar oleuadau rhan amser gyda'r nos yn mynd yn ei flaen, gallai swyddogion archwilio'r effeithiau ar fenywod ar y cam hwnnw a chynnal ymgynghoriadau manylach. Ymddiheurodd swyddogion nad ydyn nhw wedi cyfeirio'n benodol ato yn yr adroddiad.

Mynegodd yr Aelodau bryderon bod 36% o'r cyhoedd yn anghytuno'n gryf â diffodd y goleuadau a nodwyd bod yr heddlu hefyd yn erbyn y goleuadau rhan amser gyda'r nos. Doedd yr aelodau ddim yn gweld pam fod angen treial neu gynllun peilot ar gyfer goleuadau rhan amser gyda'r nos i ddangos ei fod yn mynd yn dywyllach os ydych chi'n diffodd y colofnau yn llwyr a byddai'n peryglu bywydau'r preswylwyr trwy ddiffodd y goleuadau.

Holodd yr aelodau a oedd swyddogion wedi ymgynghori ag awdurdodau lleol eraill fel Cyngor Sir Powys a ddechreuodd oleuadau rhan amser gyda'r nos yn 2008 i weld pa wersi sydd wedi cael eu dysgu ganddynt o ran trosedd ac anhrefn.

Dywedodd swyddogion ei bod yn bwysig cael tystiolaeth o'r effaith yng Nghastell-nedd Port Talbot o ran sut mae unrhyw benderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu datblygu yn cael effaith ar fusnesau, cymunedau a phreswylwyr. Derbyniodd swyddogion y gallant ddysgu o dystiolaeth gan awdurdodau eraill.
Dywedodd swyddogion nad oes bwriad i ddiffodd pob golau yn y fwrdeistref sirol ac yn hytrach maent am nodi pa ardaloedd sydd â'r risg leiaf yn gysylltiedig â nhw.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am yr anawsterau o ran cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2023/2024 ac mae swyddogion yn ymwybodol y gallai sefyllfa cyllideb 2024/2025 waethygu. Mae swyddogion yn gorfod archwilio pob opsiwn i sicrhau arbedion a lleihau gwariant er mwyn darparu'r holl wasanaethau sydd ar waith ar hyn o bryd. Dywedodd swyddogion nad oedden nhw am gau'r drws mewn perthynas ag unrhyw arbedion cyllidebol ac er mwyn iddyn nhw barhau gyda chynigion cyllidebol wrth symud ymlaen, mae angen iddyn nhw barhau i gasglu gwybodaeth am opsiynau ar gyfer arbedion posib.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd swyddogion wedi ymgynghori â swyddogion yn 2016 cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu ynghylch

goleuadau a gofynnwyd a yw goleuadau wedi cael eu diffodd gan unrhyw weinyddiaethau blaenorol?

Dywedodd swyddogion yn 2010 yn ystod prosiect adnewyddu mawr, eu bod wedi penderfynu safoni llawer o oleuadau mewn ardaloedd preswyl trwy brynu lampau 55-Watt i ddisodli lampau 35 Watt. Yna fe wnaethant bylu'r bylbiau 55watt i lawr i 35watt.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod pylu wedi cael ei ystyried yn flaenorol er mwyn arbed ynni yn ôl yn 2016 gyda threial yng Nghimla a oedd yn golygu pylu goleuadau â watedd is. Esboniodd swyddogion eu bod wedi diffodd goleuadau unwaith yn y gorffennol pan fuddsoddodd y Cyngor £23M mewn prosiect adnewyddu mawr. Ar yr adeg hon roedd ymgynghoriad unigol ag aelodau yn yr ardaloedd lle'r oedd hen 'linellau 2 wifren' yr oedd y cwmni trydan wedi rhoi'r gorau i'w chynnal gan na allai'r Cyngor fforddio ddychwelyd yr holl oleuadau cysylltiedig i wasanaeth trwy eu hadnewyddu. Roedd rhai goleuadau a oedd ar bolion pren nad oeddent wedi cael eu goleuo ers cryn amser a daeth y defnydd o rai ohonynt i ben yn barhaol ar ôl yr ymgynghoriad.

Gofynnodd aelodau a dderbyniwyd unrhyw gwynion pan oedd y goleuadau wedi cael eu diffodd neu a oedd unrhyw gynnydd mewn troseddau yn ystod y cyfnod hwnnw?

Ailddatganodd swyddogion mewn ardaloedd lle'r oedd 'linell 2 wifren' a lle'r oedd y cwmni Dosbarthu Pŵer wedi rhoi'r gorau i'w cynnal, nad oedd goleuadau ganddynt am ychydig o amser cyn y daethpwyd i benderfyniad ffurfiol i beidio â gosod rhai newydd. Ar ben hynny, ym mhob ardal lle na osodwyd rhai newydd, cafwyd ymgynghoriad penodol gyda'r aelodau lleol bryd hynny.

Eglurodd swyddogion hefyd, o ran sgyrsiau a gafwyd gydag awdurdodau cyfagos, cafwyd trafodaethau o fewn grŵp Goleuo Cymru Gyfan ynghylch goleuadau rhan amser gyda'r nos a phylu goleuadau. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod Abertawe wedi gwneud yr un peth â Phowys o ran goleuadau rhan amser gyda'r nos, ond o ganlyniad i wrthwynebiadau i hyn maent wedi troi eu goleuadau yn ôl ymlaen unwaith eto. Fodd bynnag, roedd rhai ardaloedd lle diffoddwyd y goleuadau'n llwyr.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau mai consensws peirianwyr goleuadau yw mai'r opsiwn pylu yw'r opsiwn gorau i'w roi ar waith yn y lle cyntaf, ond mae goleuadau rhan amser gyda'r nos yn bosib.

Gofynnodd yr aelodau pe bai rhywbeth yn digwydd a fyddai swyddogion yn gallu sicrhau na fyddai her gyfreithiol i'r Cyngor oherwydd ei fod yn ymwneud â diffodd y goleuadau.

Teimlai'r aelodau y gallai'r awdurdod fod yn agored i her gyfreithiol oherwydd mae'n rhaid i'r awdurdod gynnal system oleuo yn y sir yn gyfreithiol.

Esboniodd swyddogion nad oes gan yr awdurdod ddyletswydd i wasanaethu ardaloedd gyda goleuadau stryd o reidrwydd. Darparodd y swyddogion cyfreithiol gyd-destun bod y mater yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau ac a fyddai unrhyw ffordd o wneud her gyfreithiol o ran y broses o wneud penderfyniadau ei hun. Dywedodd y swyddog cyfreithiol mai'r broblem i'r aelodau oedd a oes ganddynt ddigon o wybodaeth o'u blaenau i wneud y penderfyniadau ar sail yr argymhellion sydd ger eu bron.

Eglurodd swyddogion fod yn rhaid goleuo'r arwyddion rheoliadol a bod pethau eraill yn cael eu cynnwys yn y rheoliad na fyddem yn gallu eu diffodd. Gosodwyd goleuadau mewn mannau lle mae nifer o ddamweiniau wedi digwydd am resymau atal damweiniau a bydd y rhain hefyd yn aros yn eu lle.
Gofynnodd yr Aelodau a ddylid ystyried dylanwad y cam gweithredu hwn yn erbyn trais yn erbyn menywod a merched yn ystod yr ymgynghoriad?

Cydnabuwyd hyn gan y swyddogion ac ymddiheurwyd eu bod wedi bod yn gyffredinol o ran yr effaith ar gymunedau ac nad oeddent wedi bod yn benodol mewn perthynas â menywod a merched ifanc. Eglurodd swyddogion os yw'r aelodau'n ystyried cymeradwyo argymhelliad tri ac yn galluogi cynnal cynllun peilot fel rhan o'r broses ymgynghori a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â hynny, yna byddai swyddogion yn sicrhau bod ymgynghoriad dyfnach yn cael ei wneud gan gynnwys ymgysylltu â sefydliadau penodol sy'n cefnogi menywod a merched ifanc i sicrhau bod yr effeithiau ar yr aelodau hynny o'r gymuned yn cael eu hystyried yn fanwl iawn .

Esboniodd swyddogion eu bod wedi gwneud rhagdybiaeth awtomatig fel rhan o'r astudiaeth beilot honno y byddai'r ymgynghoriad yn rhan o'r astudiaeth honno.

Yn dilyn craffu nodwyd argymhelliad 1.

9. Yn dilyn craffu, cefnogwyd argymhelliad 2 i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet.
Yn dilyn craffu, cyflwynwyd diwygiad mewn perthynas ag argymhelliad 3. Cefnogwyd yr argymhelliad diwygiedig fel y nodir isod i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet.

• 3. Cymeradwyo'r astudiaeth beilot o oleuadau rhan amser gyda'r nos, er mwyn cael dealltwriaeth well o effeithiau strategaethau arbed o'r fath a thrwy hynny alluogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn y dyfodol, os ystyrir ei fod yn briodol. Cyn cynnal cynllun peilot o'r fath, cyflwynir adroddiad pellach i'r Aelodau sy'n rhoi manylion lleoliad daearyddol yr astudiaeth beilot arfaethedig, hyd yr astudiaeth beilot, a'r amseroedd pan fydd y goleuadau'n cael eu diffodd/cynnau, a chaiff y cynlluniau eu cymeradwyo gan Aelodau cyn y cynhelir unrhyw gynllun peilot. Yna caiff canlyniadau cynllun peilot eu hatgyfeirio at yr Aelodau i lywio unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol, os ystyrir bod hyn yn briodol. Cynhelir ymgynghoriad pellach fel rhan o'r astudiaeth beilot a bydd yn cynnwys asesiad o'r effeithiau ar fenywod a merched ifanc o ran trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw yn cael eu hadrodd i'r aelodau ar ôl cwblhau'r cynllun peilot a'r ymgynghoriad.

5. **COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR**

Nododd Aelodau'r Pwyllgor y Cofnod Gweithredu.

6. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd aelodau'r pwyllgor y Flaenraglen Waith.

7. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

9. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

17. Cais ar gyfer camera adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig (ANPR) (Yn eithriedig dan Baragraff 18)

Yn dilyn craffu, cefnogodd yr Aelodau'r argymhellion i Fwrdd y Cabinet.

18. Cynnig arfaethedig i godi cyfamodau cyfyngu a gwerthu ardal fach o dir yn hen westy The Four Winds, Princess Margaret Way, Port Talbot (Yn eithriedig dan Baragraff 14)

Yn dilyn craffu, cefnogodd yr Aelodau'r argymhellion i Fwrdd y Cabinet.
TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**